# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: Hybrid

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2022

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 21)

## 2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1305 Dylid gwrthod y cynnig ynghylch 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd erbyn 2026

(Tudalennau 22 - 28)

2.2 P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

(Tudalennau 29 - 35)

2.3 P-06-1308 Rhaid gweithredu ar unwaith i roi terfyn ar aflonyddu rhywiol yn HOLL ysgolion Cymru, nid ysgolion uwchradd yn unig

(Tudalennau 36 - 45)

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

(Tudalennau 46 - 52)

3.2 P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

(Tudalennau 53 - 57)

3.3 P-06-1270 Gwnewch Hydref 21ain yn Ddiwrnod Coffa swyddogol i'r rhai a laddwyd ac a effeithiwyd gan Drychineb Aberfan.

(Tudalennau 58 - 60)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.4 P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru.

(Tudalennau 61 - 63)

3.5 P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi

(Tudalennau 64 - 67)

3.6 P-06-1292 Gwneud i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau cwmpas 3 a'u cynnwys mewn targedau sero net

(Tudalennau 68 - 71)

3.7 P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn

(Tudalennau 72 - 75)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod:

## 5 Adroddiad drafft - P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

(Tudalennau 76 - 89)

## 6 Adroddiad drafft - P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru

(Tudalennau 90 - 112)

## 7 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 113 - 114)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Dylid gwrthod y cynnig ynghylch 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd erbyn 2026

Y Pwyllgor Deisebau | 05 Rhagfyr 2022
Petitions Committee | 05 December 2022

**Cyfeirnod:** SR22/4474/1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1305

**Teitl y ddeiseb:** Dylid gwrthod y cynnig ynghylch 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd erbyn 2026

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Llafur a Phlaid Cymru yn cynnig estyn y 60 Aelod o'r Senedd ar hyn o bryd i 96 o Aelodau erbyn 2026. Mae hyn yn wastraff arian cyhoeddus pan fo modd ei ddefnyddio'n well ar wasanaethau cyhoeddus, megis cyllid gwell i gynghorau lleol. Gyda'r argyfwng costau byw parhaus, bydd hyn yn arwain at wastraffu mwy o arian cyhoeddus gyda'r gost o gyflogi 36 Aelod a'u staff cymorth. Rwy'n meddwl y byddai pleidlais ar hyn gan bobl Cymru yn syniad gwell o ddemocratiaeth ar waith.

Gyda'r costau byw yn effeithio ar bobl ar draws cymdeithas, rwyf o'r farn bod y cynnig ynghylch 36 Aelod ychwanegol yn wrthun. Dylai arian cyhoeddus gael ei wario ar ofal, cynghorau, cefnogi economïau lleol a helpu pobl ar draws Cymru gyfan.

Mae'r bobl yn haeddu llais ar y mater, ac rwy'n gobeithio bod digon o bobl yn llofnodi i ddwyn digon o bwysau i'r pleidiau ailystyried eu cynlluniau a meddwl am bobl Cymru.

# 1. Y cefndir

Ers 2004, mae cyfres o adroddiadau wedi argymell y dylai maint presennol y Senedd, sef 60 Aelod, gael ei gynyddu. Roddodd Deddf Cymru 2017 bwerau i'r Senedd mewn perthynas â'i maint a'i threfniadau etholiadol. Bydd angen i uwchfwyafrif (40 o'r 60 Aelod o'r Senedd) bleidleisio dros unrhyw Fil a gyflwynir ar ddiwygio'r Senedd iddo basio. Mae adran 64 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru gynnal pleidlais i gael barn pobl Cymru ynghylch swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Nid yw hwn yn fecanwaith ar gyfer cynnal pleidlais uniongyrchol na refferendwm uniongyrchol ar gynnig penodol.

## 1.1. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol

Ym mis Chwefror 2017, cafodd Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ei benodi gan y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad i ystyried a oes angen mwy o aelodau ar y Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau craffu a deddfwriaethol.

Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai maint y Cynulliad gynyddu i "80 Aelod fan lleiaf, ac yn ddelfrydol i 90 Aelod". Canfu fod deddfwrfa â 60 Aelod yn fach o'i chymharu â'r rhan fwyaf o'r deddfwrfeydd tebyg, a bod diffyg capasiti yn cyfyngu'n ddifrifol ar amser yr Aelodau.

## 1.2. Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Yn sgil canfyddiadau'r Panel Arbenigol, cafodd Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ei sefydlu i ystyried opsiynau ar gyfer diwygio'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei gasgliadau ym mis Medi 2020. Argymhellodd y dylai maint y Senedd gynyddu i fod â rhwng 80 a 90 Aelod, a hynny o'r etholiad yn 2026 ymlaen. Roedd hefyd yn argymell i system etholiadol y bleidlais sengl drosglwyddadwy gael ei defnyddio. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol Aelod ar gyfer y Pwyllgor. Hefyd, cyn i'r Pwyllgor allu gorffen ei waith, amharwyd arno gan ymddiswyddiad David Rowlands, Aelod Plaid Brexit, a chan bandemig Covid-19.

## 1.3. y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Sefydlwyd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ym mis Hydref 2021 a gofynnwyd iddo wneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi i Fil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd.

Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai'r Senedd gynyddu o ran maint i 96 Aelod. Argymhellodd gyflwyno system cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig, a chreu 16 etholaeth newydd drwy baru etholaethau presennol Senedd y DU. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Senedd newydd gynnwys cwotâu rhywedd, mesurau gwell ar gyfer casglu data am amrywiaeth ymgeiswyr a gweithdrefnau ar gyfer rhannu swyddi.

Ymddiswyddodd cynrychiolydd y Ceidwadwyr o'r Pwyllgor cyn i adroddiad y Pwyllgor gael ei gytuno. Cafodd rhai o'r prif argymhellion eu derbyn gan fwyafrif ar y Pwyllgor, ond nid gan bob Aelod.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ac arweinydd Plaid Cymru, Adam Price, ddatganiad ar y cyd ar 10 Mai 2022, yn dadlau y dylai'r Senedd gael 96 Aelod ac y dylid defnyddio system gyfrannol rhestr gaeedig i'w hethol.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb hon, dywedodd y Prif Weinidog:

> "the Senedd is currently the smallest of all the devolved legislatures in the UK and has remained the same size since the establishment of the National Assembly in 1999, despite assuming extra law-making and tax-raising powers. In addition, when the UK left the EU, Wales lost its MEPs, and there are proposals for Wales to see a cut in the number of MPs from 40 to 32 under current boundary review plans.
>
> It is essential that the Senedd has appropriate capacity to carry out its role in holding the government to account."

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Diwygio'r Senedd maes o law, i'r Senedd ei drafod a chraffu arno.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Trafododd y Senedd adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar 8 Mehefin 2022. Dywedodd Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor:

> "ni cheir un pecyn perffaith digymysg o ddiwygio etholiadol a fydd yn bodloni pawb. [...] amcan [...] ein pwyllgor oedd dod o hyd i argymhellion y mae'n rhaid iddynt hefyd ennill cefnogaeth ar draws y Senedd gyfan

> […] nid ceisio sicrhau rhyw weledigaeth o berffeithrwydd, a thrwy hynny aberthu ymarferoldeb a gallu i'w gyflawni erbyn 2026."

Dywedodd Mr Irranca-Davies fod angen mwy o gapasiti ar y Senedd i gyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol a ysgwyddwyd ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau deddfu sylfaenol, pwerau i fenthyca ac amrywio trethi, gwaith ychwanegol a grëwyd wrth i bwerau ddychwelyd o'r UE yn sgil Brexit, mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o gyfrifoldebau'r Senedd oherwydd pandemig Covid-19, a'r "potensial hwnnw, nad yw'n afrealistig, o gyfrifoldebau ychwanegol yn y dyfodol".

Gwnaeth Darren Millar, llefarydd yr Wrthblaid ar y cyfansoddiad, feirniadu'r cynigion, gan ddadlau nad dyma'r amser iawn i gynyddu maint y Senedd. Dadleuodd Rhys ab Owen, llefarydd Plaid Cymru ar y cyfansoddiad, fod angen Senedd fwy "i graffu ar Lywodraeth Cymru yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon".

Pleidleisiodd y Senedd o blaid y cynnig i dderbyn yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, gyda 40 Aelod yn pleidleisio o blaid a 14 yn pleidleisio yn erbyn. Yn y modd hwn, bodlonwyd y gofynion i sicrhau 'uwchfwyafrif' o ddwy ran o dair o'r Senedd i ganiatáu i Fil ar ddiwygio'r Senedd gael ei gyflwyno.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1305
Ein cyf/Our ref FM -/00586/22

Jack Sargeant MS
Chair
Petitions Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN
petitions@senedd.wales

17th November 2022

Dear Jack,

I am writing in response to your letter of 12 October about a petition from Gareth John Phillips opposed to increasing the number of Senedd Members.

As you are aware, the Senedd voted in favour of taking forward the recommendations of the Special Purpose Committee on Senedd Reform report *Reforming our Senedd: A stronger voice for the people of Wales* in June, by the necessary two-thirds majority.

This report includes a recommendation that the Senedd should have 96 Members to reflect the way the role and responsibilities of the Senedd has grown since it was first established in 1999.

The Richard Commission (2004); the McAllister report (2017) and subsequently the Committee on Senedd Electoral Reform (2020), have all concluded that there is clear and compelling evidence that the Senedd must increase in size to fulfil its responsibilities effectively and in the best interests of the people of Wales.

The Senedd is currently the smallest of all the devolved legislatures in the UK and has remained the same size since the establishment of the National Assembly in 1999, despite assuming extra law-making and tax-raising powers. In addition, when the UK left the EU, Wales lost its MEPs and there are proposals for Wales to see a cut in the number of MPs from 40 to 32 under current boundary review plans.

The scrutiny role of the legislature is vital for a healthy democracy. It is essential that the Senedd has appropriate capacity to carry out its role in holding the government to account.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Investing in our democracy has a cost attached to it. The Welsh Government will develop and publish detailed cost estimates to accompany Senedd Reform legislation. Elected Members and the public will have an opportunity to consider these costs when they are published as part of the Bill's scrutiny process.

The Wales Act 2017 provided power to the Senedd to change its size, without being subject to a referendum. There are many precedents for changes to the number of elected members being made without referendums, including the boundary review changes for the UK Parliament which will see a reduction in the number of MPs that Wales returns to Westminster from 40 to 32.

Following the vote in the Senedd in June, the Welsh Government has begun work on a Senedd Reform Bill, which will introduced to the Senedd in due course. This will be subject to rigorous debate and scrutiny in the Senedd.

**MARK DRAKEFORD**

**P-06-1305 Reject proposed 36 extra Members of the Senedd by 2026, Correspondence – Petitioner to Committee, 30.11.22**

Dear Petitions Committee,

The Senedd presently may be the smallest devolved legislature in the UK but it has the smallest population and the birth rate is falling. Immigration within Wales has given people from other countries the opportunity to live in safety and provide social, economic opportunities. This comes at a cost to the local councils in health, education, housing etc. The money should be spent on these issues not expanding the Senedd.

The Welsh people need to be consulted on the issue of expanding the number of AMs within the Assembly. The present cost of living crisis will continue within the foreseeable future. The people of Wales deserve a voice on this subject not the Senedd members.

In reference to the letter from Mark Drakeford I disagree with his wording, democracy comes at a cost. The overall process needs to be looked into in more detail and people consulted across Wales.

Yours faithfully,

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 5 Rhagfyr 2020
Petitions Committee | 5 December 2020

Cyfeirnod: SR22/4474-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1307

Teitl y ddeiseb: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Geiriad y ddeiseb: Mae preswylwyr 'the Mill', ystâd newydd yn Nhreganna, Caerdydd, yn gorfod talu ffi flynyddol o £102 am gynnal a chadw parc sy'n ffinio ar yr ystâd. Rhaid gwneud y taliad hwn ochr yn ochr â thaliadau cynnal a chadw eraill sy'n talu am y priffyrdd a'r mannau gwyrdd heb eu mabwysiadu ac ati. Rhaid i breswylwyr hefyd dalu'r dreth gyngor lawn sy'n ofynnol. Nid yw preswylwyr yn cael dadansoddiad manwl o gostau'r parc, dim ond hysbysiad i ddweud bod yn rhaid iddynt dalu'r ffi.

Ystyriwyd bod 'the Mill' yn enghraifft dda o bolisi Llywodraeth Cymru oherwydd ei statws fel ystâd ddeiliadaeth gymysg sy'n cynnwys tai fforddiadwy ochr yn ochr â phrynu rhydd-ddaliadol – felly, o ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi preswylwyr ar ystadau fel 'the Mill' drwy annog a hwyluso awdurdodau lleol i fabwysiadu'r gwaith cynnal a chadw a dileu'r taliadau cosbol hyn.

# 1. Cefndir

Lle nad yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu ardaloedd cyffredin – er enghraifft, ffyrdd, mannau agored a chyfleusterau chwarae – ar ystadau tai, gellir rhoi trefniadau preifat ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Yn gyffredinol, bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle bydd tâl yn cael ei godi ar breswylwyr gan gwmni rheoli, neu eu hasiant, er mwyn talu am gostau cynnal a chadw.

Yn ôl ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, gall y mannau a'r cyfleusterau hyn gynnwys:

- *ardaloedd agored,*
- *parciau chwarae,*
- *ffyrdd a phalmentydd,*
- *lleoedd parcio ceir,*
- *goleuadau stryd,*
- *gwaith tirlunio,*
- *mentrau amgylcheddol megis lleiniau ymyl ffordd o flodau gwyllt, a*
- *darparu systemau chwistrellu preifat a rennir.*

Yn aml, cyfeirir at y taliadau hyn fel taliadau ystadau. Mae rhydd-ddeiliaid yn debygol o wynebu taliadau uniongyrchol, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i lesddeiliaid a thenantiaid dalu drwy eu taliadau gwasanaeth a'u rhent. Mae'r papur briffio hwn yn defnyddio'r term "preswylwyr" i gwmpasu pob grŵp a allai fod yn atebol am daliadau ystadau.

Yn ôl yr ymatebion a ddaeth i law ar gyfer yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2020, gall taliadau ystadau fod rhwng £50 a £500 y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf yn amrywio rhwng £100 a £150. Mae preswylwyr yn parhau i fod yn atebol am y dreth gyngor, yn ogystal ag unrhyw daliadau ystadau.

Mae nifer o bryderon wedi'u codi gan Aelodau o'r Senedd ynghylch taliadau ystadau, a thrwy'r ymgynghoriad y cyfeirir ato uchod. Mae tryloywder yn fater allweddol, gyda thrigolion yn cwyno bod rheolwyr ystadau yn gallu pennu taliadau heb ymgynghori. Mae trigolion hefyd wedi gwneud sylwadau ynghylch y ffaith nad yw datblygwyr yn aml yn darparu gwybodaeth am daliadau ystadau yn ystod y broses o werthu eiddo.

Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad 2020 yn cwestiynu pam fod tâl yn cael ei godi arnynt mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw ar bethau sydd, ar y cyfan, yn gyfleusterau cyhoeddus, o gofio eu bod eisoes yn talu'r dreth gyngor. Roedd ymgynghoriad 2020 yn nodi bod ymatebwyr 'yn gadarn o blaid' rhoi terfyn ar daliadau ystadau ac o blaid rhoi'r dasg o reoli seilwaith cymunedol yn nwylo awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd, mae gan rydd-ddeiliaid bwerau cyfyngedig yn unig i herio taliadau ystadau. Mae hyn yn wahanol i sefyllfa lesddeiliaid, sy'n gallu gwneud cais i Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau i herio taliadau gwasanaeth.

Ymddengys fod y defnydd o daliadau ystadau yng Nghymru wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, gydag ymgynghoriad 2020 yn nodi bod 72 y cant o'r rhai a ymatebodd yn byw ar ystadau a adeiladwyd ar ôl 2010. Bu cynnydd cyfatebol yn y sylw a roddir yn y cyfryngau i daliadau ystadau, a'r effaith y maent yn ei chael ar rydd-ddeiliaid yn arbennig, gan arwain at boblogeiddio'r term 'fleecehold'' ar draws sector tai y DU.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth ei hymgynghoriad ar daliadau ystadau rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2020, a chafwyd dros 600 o ymatebion iddo. Ar 30 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, ddatganiad ysgrifenedig yn ymateb i'w ganfyddiadau.

Cyhoeddodd y Gweinidog newidiadau i gynllun Cymorth i Brynu – Cymru at ddibenion mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymrwymodd i archwilio gwahanol ddulliau o reoli ystadau, ond diystyrodd y cam o drosglwyddo'r dyletswyddau dan sylw yn gyfan gwbl i gynghorau.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys diwygio taliadau ystadau yn ei Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2021, gan nodi y byddai'n:

> *Sicrhau bod taliadau ystad am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg.*

Yn dilyn cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mai 2022,, gwnaeth y Prif Weinidog ailddatgan y ffaith na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi gwarant y byddai awdurdodau lleol yn talu costau cynnal a chadw mewn perthynas ag ystadau tai newydd. Dywedodd y Prif Weinidog:

> Pe bai datblygwr yn credu, ni waeth pa mor wael yw'r gwaith, ni waeth pa mor wael yw safon y cyfleusterau cymunedol, byddai sicrwydd y byddai'r pwrs cyhoeddus yn talu am hynny ac yn ei gywiro, nid oes cymhelliad o gwbl iddyn nhw wneud y gwaith yn y ffordd yr ydym eisiau iddo gael ei wneud.

Gwnaeth y Prif Weinidog hefyd gadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch adeiladau yn ystod tymor y Senedd hon, gan gynnwys cynllun cofrestru a thrwyddedu newydd. Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu cwmnïau sy'n rheoli eiddo preswyl. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n "helpu i ddileu rhai o'r achosion o gamddefnyddio'r system" sy'n ymwneud â thaliadau ystadau.

Yn ogystal, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn aros i Lywodraeth y DU gyflwyno rhaglen ddiwygio ar gyfer y gyfundrefn lesddaliadau (yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith) a fyddai'n rhoi mwy o bŵer i rydd-ddeiliaid herio taliadau a rheolaeth ystadau. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r diwygiadau eto wedi'u rhoi ar waith.

Ymatebodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i'r ddeiseb ar 15 Tachwedd 2022. Yn ei llythyr, gwnaeth y Gweinidog ailddatgan disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth i wella hawliau rhydd-ddeiliaid. Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru bellach yn archwilio'r broses o greu dull newydd o wneud gwaith cynnal a chadw ar seilwaith cymunedol, a allai gynnwys gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fabwysiadu'r rôl cynnal a chadw yn gyfnewid am daliad gan y datblygwr. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y byddai'r cam o fabwysiadu seilwaith cymunedol yn ôl-weithredol yn parhau i fod yn ddewis i gynghorau.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar 14 Mawrth 2018, cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod, sef cynnig a gyflwynwyd gan Hefin David AS i greu Bil â'r nod o reoleiddio cwmnïau sy'n rheoli ystadau. Byddai'r Bil arfaethedig hefyd yn cryfhau gallu rhydd-ddeiliaid i herio rheolwyr ystadau.

Wrth ymateb i'r ddadl, ymrwymodd Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r mater hwn. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r grŵp mewn adroddiad ar 17 Gorffennaf 2019.

Ar 1 Tachwedd 2020, cyflwynwyd deiseb a oedd yn galw am ragor o bwerau i rydd-ddeiliaid yng Nghymru herio cwmnïau sy'n rheoli ystadau. Gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ymateb i'r ddeiseb hon ar 5 Hydref 2021, a chafodd y ddeiseb ei chau gan y Pwyllgor gan fod y deisebydd yn fodlon ag ymateb y Gweinidog. Gellir dod o hyd i'r briff ymchwil a baratowyd ar gyfer y ddeiseb hon yma.

Yn ogystal, mae taliadau ystadau yn fater sydd wedi cael ei godi sawl gwaith yn y Cyfarfod Llawn. Gwnaeth Hefin David AS godi'r mater ar 15 Mehefin 2021. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud ei bod ystyried pob opsiwn wrth geisio mynd i'r afael â'r mater. Ar 24 Mai 2022, gofynnodd Rhys ab Owen AS gwestiwn ar y broses o reoli ystadau, yn dilyn cwynion gan breswylwyr ar ystâd 'the Mill' yn Nhreganna, Caerdydd, (sef yr ystâd y cyfeirir ati yn y ddeiseb hon).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1307
Ein cyf/Our ref JJ/02294/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

01 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Hydref at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynglŷn â "P-06-1307 - Ymrwymo i awdurdodau lleol fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd". Rwy'n ymateb gan fod yr ymholiad yn ymwneud â mater tai.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw ystadau tai newydd yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol pan fydd seilwaith cymunedol wedi'i fabwysiadu. Pan na fydd seilwaith cymunedol yn cael ei fabwysiadu, bydd y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal a chadw yn gyffredinol yn codi tâl ystad ar feddianwyr y cartrefi. Mae trefniadau amrywiol ar gyfer cynnal a chadw seilwaith cymunedol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i fabwysiadu systemau draenio trefol cynaliadwy ac yn aml maent yn mabwysiadu ffyrdd ystadau pan fydd y datblygwr wedi dod i gytundeb â nhw. Nid oes dyletswydd mewn cyfraith i fabwysiadu mannau agored cyhoeddus, er y gall awdurdodau lleol ddewis gwneud hynny.

Fe wnes i gynnal galwad am dystiolaeth ar bwnc taliadau ystad yn 2020 a helpodd i ddatgelu rhai o'r arferion gwael sy'n gysylltiedig â chodi taliadau o'r fath ar hyn o bryd. Arweiniodd hyn at gynnwys ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i "Sicrhau bod taliadau ystad am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg". Rwy'n mynd ar drywydd nifer o gamau gweithredu mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn, y byddaf yn eu hamlinellu isod.

O ran ystadau presennol sy'n ddarostyngedig i daliadau, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn rhoi'r un hawliau i rydd-ddeiliaid â lesddeiliaid mewn perthynas â materion fel yr hawl i wneud cais i dribiwnlys i herio tegwch taliadau ystad, ac i benodi rheolwr newydd i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau y codir taliadau ystad amdanynt. Gallai ymestyn hawliau o'r fath i rydd-ddeiliaid helpu i leihau maint taliadau ystad, pan fo amheuaeth ar hyn o bryd ynghylch eu rhesymoldeb, a gallai ganiatáu i drigolion ddileu swyddogaethau rheoli cwmni os ydynt yn credu nad yw taliadau yn cael eu gweinyddu'n briodol. Fy mwriad yw, pan gyflwynir deddfwriaeth o'r fath, y dylid gwneud hynny ar sail Cymru a Lloegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar gyfer ystadau newydd, byddwn yn archwilio ymarferoldeb defnyddio deddfwriaeth i ddod â'r gwahanol gyfundrefnau i dalu am gynnal a chadw seilwaith cymunedol ynghyd mewn un dull gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys ystyried rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i fabwysiadu seilwaith cymunedol yn gyfnewid am daliad priodol gan y datblygwr.

Rwy'n deall bod fy swyddogion wedi trafod yn ddiweddar y tâl gwasanaeth o £102 yn y Felin gyda Tirion Homes. Mae swyddogion yn deall bod y tâl gwasanaeth yn amcangyfrif blynyddol ac yn cynnwys costau cynnal a chadw ar gyfer amwynderau cyffredinol gan gynnwys, yr ardaloedd chwarae, glaswellt, tirlunio, meinciau a biniau (gan gynnwys gwagio'n rheolaidd). Mae hefyd yn darparu ar gyfer cynnal a chadw strwythurau, llwybrau, grisiau a rheiliau ynghyd â gwiriadau diogelwch blynyddol. Yn olaf, mae'r tâl yn cynnwys cyllid ar gyfer cynnal a chadw, gan gynnwys arolygu'n flynyddol, systemau atal llifogydd y safle, y mae Parc Glan yr Afon yn rhan annatod ohonynt. Bwriad y drefn cynnal a chadw yw cadw'r parc a'r amddiffynfeydd llifogydd mewn cyflwr da er mwynhad y trigolion a'r gymuned ehangach.

Mae Tirion wedi dweud na allant, fel Cymdeithas Budd Cymunedol nid-er-elw, amsugno'r holl gostau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â Pharc Glan yr Afon a'r amddiffynfeydd llifogydd ac felly mae'n rhaid iddynt drosglwyddo'r rhain i'r trigolion yn unol â rhwymedigaethau a ddylai fod wedi'u gwneud yn glir i ddarpar brynwyr yn ystod y broses werthu. Mae Tirion hefyd wedi dweud eu bod yn cydnabod bod y tâl hwn yn dod ar adeg o bwysau yn sgil costau eraill a'u bod wedi ymgymryd â gwerthusiad o'r gwaith a'r taliadau cyfatebol. Rwy'n deall y bydd y gwerthusiad hwn ar gael i'r trigolion ei adolygu a rhoi eu sylwadau arno.

Mae penderfyniadau i fabwysiadu'n ôl-weithredol yn faterion i awdurdodau unigol benderfynu arnynt ochr yn ochr â'u blaenoriaethau eraill. Felly, byddai'n amhriodol imi wneud sylw ynghylch y penderfyniadau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi setliadau ariannol mor hael i awdurdodau lleol ag y mae ein cyllidebau wedi'u caniatáu, y gellid eu defnyddio i gefnogi camau mabwysiadu. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bydd cyfyngiadau sylweddol ar y gyllideb yn dal i effeithio'n anochel ar benderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch y materion hyn.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1308 Rhaid gweithredu ar unwaith i roi terfyn ar aflonyddu rhywiol yn HOLL ysgolion Cymru, nid ysgolion uwchradd yn unig

Y Pwyllgor Deisebau | 5 Rhagfyr 2022
Petitions Committee | 5 December 2022

**Cyfeirnod:** SR22/4474-1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1308

**Teitl y ddeiseb:** Rhaid gweithredu ar unwaith i roi terfyn ar aflonyddu rhywiol yn HOLL ysgolion Cymru, nid ysgolion uwchradd yn unig

Mae ymchwiliad diweddar y Senedd i aflonyddu rhywiol mewn ysgolion uwchradd wedi dangos graddfa'r broblem, yn enwedig i ferched. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod aflonyddu hefyd yn rhemp mewn ysgolion cynradd a cholegau, ac mae'r adroddiad yn argymell cynnal adolygiadau pellach. Ni allwn aros am ragor o ymchwiliadau cyn gweithredu. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y camau a gymerir yn sgil yr adroddiad yn cael eu hymestyn ar unwaith i gynnwys pob lleoliad, a hynny er mwyn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag aflonyddu rhywiol drwy gydol eu haddysg.

**Rhagor o fanylion:**

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Gorffennaf 2022, sef 'Mae'n effeithio ar bawb: Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr', a'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn ym mis Rhagfyr 2021, sef 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', ill dau wedi dangos maint a graddfa'r broblem o aflonyddu rhywiol mewn ysgolion, yn enwedig yr aflonyddu y mae merched yn ei wynebu.

Dangosodd y dystiolaeth nad yw hyn yn digwydd mewn ysgolion uwchradd yn unig; mae'n dechrau yn y sector cynradd, ac yn dilyn merched a menywod

ifanc i addysg bellach a thu hwnt. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiadau pellach o'r lleoliadau hyn.

Mae plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn aros yn ddigon hir am gamau gweithredu ynghylch y mater hwn, sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd a'u profiadau dysgu. Bydd ymchwiliad arall ond yn gohirio'r gwaith pwysig o newid diwylliant sy'n ystyried bwlio rhywiol cyffredin fel rhan arferol o gymdeithas ac addysg. Rhaid gweithredu yn awr ym mhob ysgol a choleg.

https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/dydyn-ni-ddim-yn-dweud-wrth-ein-hathrawon-profiadau-o-aflonyddu-rhywiol-rhwng

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38554

# 1. Crynodeb

- Roedd Adroddiad Estyn ac ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn canolbwyntio ar ddisgyblion oedran ysgol uwchradd a chanfuwyd bod aflonyddu rhywiol yn broblem fawr a'i bod wedi "ei normaleiddio". Mae'n effeithio ar ferched a phobl ifanc LHDTC+ yn bennaf.
- Ychydig o waith ymchwil a wnaed i'r sefyllfa mewn ysgolion cynradd, yn rhannol oherwydd sensitifrwydd trafod pwnc o'r fath gyda phlant yr oedran hwn.
- Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei bod yn comisiynu adolygiad mewn ysgolion cynradd ac mae bellach yn ystyried cwmpas a dull gweithredu adolygiad o'r fath.

# 2. Y cefndir

Mae aflonyddu rhywiol rhwng pobl ifanc wedi cael mwy o sylw yn ystod y deunaw mis diwethaf, gyda gwefan Everyone's Invited yn darparu llwyfan i ddioddefwyr gofnodi eu tystiolaeth a'u profiadau yn ddienw. Gall dioddefwyr enwi'r ysgol, y coleg neu'r brifysgol lle y digwyddodd, neu y deilliodd, yr aflonyddu neu'r cam-drin.

Ym mis Mehefin 2021, fe adroddwyd gan y BBC fod dros 90 o ysgolion yng Nghymru wedi cael eu rhestru ar y wefan. Hefyd, fe adroddwyd ym mis Tachwedd 2021 bod plant mor ifanc ag 11 oed yn dysgu am ryw o bornograffi. Oherwydd hyn, mae pryderon bod plant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad â chynnwys rhywiol, gan

gynnwys ar-lein, ac a yw hyn yn achos, neu o leiaf yn ffactor gwaethygol, o ran aflonyddu rhywiol gan gyfoedion.

Ym mis Mehefin 2021, gofynnodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i Estyn, yr arolygiaeth addysg, ymchwilio i aflonyddu rhywiol mewn **ysgolion uwchradd** ac o'u hamgylch. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2021. Wedi hynny, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ymchwiliad i'r mater, gan gyflwyno adroddiad ym mis Gorffennaf 2022.

Dywedodd datganiad ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2021 fod adroddiad Estyn yn "anodd ei ddarllen" ac yn "tynnu sylw at y gwirionedd anghyfforddus ynghylch nifer yr achosion o aflonyddu rhywiol gan gyfoedion yn ein hysgolion". Ymatebodd y Gweinidogion i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Hydref 2022, cyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Hydref 2022.

# 3. Beth mae adroddiad Estyn ac ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei ddweud am y broblem bresennol mewn ysgolion uwchradd

## 3.1. Adroddiad Estyn

Adroddodd Estyn **nad yw disgyblion yn gyffredinol yn dweud wrth eu hathrawon** mewn ysgolion uwchradd pan fyddan nhw'n profi aflonyddu rhywiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei fod yn digwydd mor rheolaidd fel ei fod wedi cael "ei normaleiddio".

- nid yw disgyblion yn teimlo'n ddigon hyderus;
- nid yw'r ysgol wedi creu diwylliant ac amgylchedd lle y gallant wneud hynny; ac
- nid yw disgyblion yn ei weld fel rhywbeth y dylen nhw ei rannu â'u hathrawon.

Ymwelodd Estyn â 35 o ysgolion uwchradd yn hydref 2021 a chlywodd gan 1,300 o ddisgyblion. Canfu'r Arolygiaeth fod arweinwyr ysgol, lle maen nhw'n ymwybodol o achosion o aflonyddu rhywiol, yn ymateb yn addas i gwynion ffurfiol ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol, er enghraifft at y gwasanaethau cymdeithasol a'r

heddlu. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd fod anghysondeb yn nealltwriaeth staff ysgol o beth yw aflonyddu rhywiol, sy'n golygu bod anghysondebau yn y ffordd y maent yn ymateb. Prif ganfyddiadau Estyn oedd:

- dywed **hanner yr holl ddisgyblion uwchradd** fod ganddynt brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a dywed tri chwarter yr holl ddisgyblion eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn profi hyn;
- mae mwyafrif o **ddisgyblion benywaidd (61 y cant)** yn nodi bod ganddynt brofiad personol o aflonyddu rhwng cyfoedion ac mae llawer (82 y cant) yn nodi eu bod wedi gweld eraill yn ei brofi; Mae hyn yn cymharu â chyfran is o ddisgyblion gwrywaidd (29 y cant a 71 y cant yn y drefn honno);
- Mae gan ddisgyblion LHDTC+ brofiadau personol sylweddol o aflonyddu homoffobig geiriol, a dywed llawer ohonynt fod bwlio homoffobig yn digwydd trwy'r amser.
- Mae rhywfaint o aflonyddu rhywiol yn digwydd wyneb yn wyneb yn ystod y diwrnod ysgol, er ei fod yn digwydd yn fwy felly **ar-lein a thu allan i oriau ysgol**; ac
- mae **gwendidau o ran casglu a defnyddio data** ar achosion o aflonyddu rhywiol mewn ysgolion uwchradd ac o'u hamgylch.

Canfu adolygiad gan Ofsted ddarlun tebyg yn Lloegr. Fel adroddiad Estyn, ni wnaeth edrych ar ysgolion cynradd.

## 3.2. Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn adleisio canfyddiadau Estyn a daeth i'r casgliad bod "aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr yn frawychus o gyffredin". Gwnaeth y Pwyllgor 24 o argymhellion, gan gynnwys **bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad tebyg mewn ysgolion cynradd**, o ystyried bod aflonyddu rhywiol yn debygol o fod yn broblem weithiau mewn oedrannau iau hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i wneud hyn ac mae hefyd wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiad mewn colegau.

Ychydig o waith ymchwil sydd wedi'i wneud i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion cynradd, felly nid yw maint y broblem yn glir. Dywedodd yr Athro EJ Renold, Athro Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol Caerdydd, wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> "There is less research in this area, mainly because of the difficulty in designing affirmative methods that allow children to talk about some of the most sensitive experiences at that age. A lot of ethnographic

research often captures this; this isn't survey data, it's being with children over a period of time allows you to see what's happening in those classrooms and in playgrounds and so on, and building that trust that they can talk to you about maybe what's happening."

Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg rai **arwyddion**, gan gynnwys gan undebau athrawon a Barnado's, bod aflonyddu rhywiol **yn debygol o fod yn broblem hefyd ymhlith plant oed ysgol gynradd**, yn enwedig ym mlynyddoedd 4, 5 a 6. Cofnodir hyn ym mharagraffau 54-57 o adroddiad y Pwyllgor.

Felly, gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac addysg yr argymhelliad a ganlyn:

> Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd, gan fanteisio ar arbenigedd ac arweiniad gan elusennau plant, academyddion a Chomisiynydd Plant Cymru fel y bo'n briodol.

# 4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem?

**Derbyniodd** Llywodraeth Cymru **yr argymhelliad ei fod yn comisiynu adolygiad mewn ysgolion cynradd,** gan ymateb fel a ganlyn:

> Byddai'n fuddiol cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant o fwlio ar sail rhyw neu aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau cynradd, a byddai gwrando ar blant yn rhan hanfodol o unrhyw adolygiad i'r maes hwn. Fodd bynnag, rhaid i gyfranogiad plant mewn unrhyw ddysgu neu drafodaeth ar themâu o'r natur hwn fod yn briodol yn ddatblygiadol a dylai pynciau trafod fod yn gysylltiedig â phrofiadau a dealltwriaeth plant eu hunain. Byddwn felly'n bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol i bennu cwmpas yr adolygiad a rhoi manylion pellach i'r pwyllgor maes o law.

Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor hwn **yn cydnabod nad yw aflonyddu rhywiol gan gyfoedion wedi'i gyfyngu i ysgolion uwchradd yn unig** a bod angen gweithredu ar draws pob lleoliad. Fodd bynnag, mae'n dweud ei bod yn **bwysig i sicrhau ein bod yn ymateb mewn ffordd sydd wedi'i theilwra'n briodol** ar gyfer bob oedran.

O ran y broblem yn fwy cyffredinol a'i ymateb i adolygiad Estyn ac ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn canolbwyntio ar ddysgwyr oedran ysgol uwchradd, mae Llywodraeth Cymru yn **datblygu cynllun gweithredu**. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cynnwys amryw o asiantaethau perthnasol ac adrannau'r llywodraeth a bydd yn nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem. Dywed llythyr y Gweinidog mai nod Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyn y Nadolig.

Fel y mae llythyr y Gweinidog yn amlinellu ac fel y dywedodd wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mae gan Lywodraeth Cymru ystod o ganllawiau ar waith i ddiogelu dysgwyr. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb “yn briodol yn ddatblygiadol”, yn y Cwricwlwm i Gymru newydd, yn amddiffyn pobl ifanc yn well ac yn hyrwyddo agweddau a dealltwriaeth well.

Mae'r cwricwlwm newydd bellach yn cael ei ddysgu mewn ysgolion cynradd a bydd yn statudol mewn ysgolion uwchradd i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 o fis Medi 2023, cyn cael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol bob blwyddyn nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026. Yn wahanol i'r addysg rhyw bresennol y mae'n ei disodli, **bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol mewn ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd**, ac ni fydd gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o'r gwersi hynny.

Mae’r egwyddor o ddysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd **"briodol yn ddatblygiadol"** yn un bwysig ac fe'i nodir yn y ddeddfwriaeth sy’n sefydlu'r Cwricwlwm i Gymru. Cafodd ei ailadrodd hefyd mewn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru at bob pennaeth ysgol.

# 5. Rhagor o wybodaeth

Mae Ymchwil y Senedd eisoes wedi cyhoeddi dwy erthygl ynghylch aflonyddu rhywiol ymhlith pobl ifanc, ym mis Chwefror a mis Hydref 2022.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1308
Ein cyf/Our ref JMEWL/02145/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

7 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 17 Hydref.

Heb os nac oni bai, mae adroddiad Estyn ac Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi tanlinellu pwysigrwydd gweithredu nawr er mwyn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg, addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach, a'u grymuso i herio ymddygiad niweidiol a digroeso.

Rydym yn cydnabod nad yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi'i gyfyngu i ysgolion uwchradd yn unig, ac rydym yn glir bod angen gweithredu ar draws pob lleoliad. Ond mae deall sut mae hyn yn effeithio ar bob oedran yn bwysig i sicrhau ein bod yn ymateb mewn ffordd sydd wedi'i theilwra'n briodol.

Dyna pam ein bod wedi comisiynu adolygiad thematig gan Estyn i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn y sector addysg bellach. Mae'r adolygiad hwnnw yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a disgwylir i adroddiad gael ei lunio yng ngwanwyn 2023. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio argymhellion Estyn fel sail i raglen waith benodol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol mewn addysg bellach, ac rydym wedi dyrannu cyllid ar gyfer prosiect cydweithredol dan arweiniad colegau i ddatblygu adnoddau, gwaith ymchwil a chyfleoedd dysgu proffesiynol.

Rydym hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol datblygu dealltwriaeth well o brofiadau plant o fwlio ar sail rhywedd neu aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau cynradd. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried hyd a lled yr adolygiad hwn.

Er y bydd adolygiadau pellach yn help i sicrhau polisi ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nid yw hynny'n ein hatal rhag gweithredu nawr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn un o ofynion statudol fframwaith Cwricwlwm i Gymru, ac mae ganddi rôl bositif yn addysg dysgwyr i'w diogelu.

Diben ACRh yw helpu plant i ddatblygu cydberthnasau a phatrymau ymddygiad iach ymhlith eu ffrindiau a'u teuluoedd, ar sail caredigrwydd, empathi a pharch. Mae hyn yn bwysig er mwyn iddynt ddatblygu'n 'unigolion iach, hyderus' a sicrhau eu lles yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn feddyliol.

Un arall o ddibenion ACRh yw cadw plant yn saff a diogelu eu lles. Mae hyn yn hanfodol wrth i dechnoleg a chymdeithas barhau i newid yn gyflym. Mae ACRh yn help i blant wybod pa gydberthnasau a sefyllfaoedd allai eu rhoi mewn perygl. Gall roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt, ac am beth i'w wneud er mwyn cadw'n saff a sut i ofyn am help.

Drwy ardal Cadw'n ddiogel ar-lein ar wefan Hwb, rydym wedi datblygu adnoddau i ymarferwyr allu addysgu a chefnogi dysgwyr ynghylch y mater hwn. Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg ynghylch ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, cyhoeddwyd modiwl hyfforddi byr i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r canllawiau hyn, ac rydym yn annog uwch-arweinwyr pob ysgol i ddilyn yr hyfforddiant.

Rydym hefyd yn sefydlu panel plant a phobl ifanc ymgynghorol i feithrin gwytnwch digidol. Gwahoddir aelodau'r panel i rannu eu profiadau o fod ar-lein ac i roi eu barn a'u safbwyntiau a fydd yn llywio cyfeiriad ein gwaith, a chaiff ein holl negeseuon/deunydd gweledol eu profi ymhlith plant a phobl ifanc.

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu lles, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â'u teuluoedd a'u cyfoedion, a'u gallu i fwynhau cydberthnasau iach, hapus, llawn parch nawr ac yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch a chydsyniad os ydym i roi terfyn ar drais a cham-drin. Rydym am sicrhau bod sesiynau dysgu ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n briodol i'w datblygiad, sydd o safon, ac sy'n ymateb i'w hanghenion a'u profiadau nhw.

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth Genedlaethol Bum Mlynedd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar 24 Mai, strategaeth a ddatblygwyd ochr yn ochr â sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys yr heddlu, y sector arbenigol a goroeswyr. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r amcanion cynhwysfawr y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn symud agenda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei blaen. Un o'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Genedlaethol yw cynyddu'r ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol positif. Byddwn yn mynd ati ar lefel drawslywodraethol i sicrhau ei llwyddiant.

Gweithredir y strategaeth ar sail glasbrint, sy'n tynnu ynghyd sefydliadau datganoledig ac annatganoledig, yn ogystal â chryfhau'r bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac arbenigol. Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn galw am ddatblygu ffrwd waith benodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Ystyriwyd hyn wrth ddadansoddi'r ymatebion, a chytunwyd i wneud hynny, a bydd ffrwd waith yn cael ei datblygu sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Bydd y gweithgor hwn yn gallu ystyried y ddealltwriaeth sydd gennym o anghenion plant a phobl ifanc sy'n dioddef yn sgil trais a cham-drin, gyda'r nod o ofalu bod gwasanaethau yn ymateb yn briodol a bod y niwed a wneir yn cael sylw ac yn cael ei atal. Bydd y gweithgor hwn yn mynd ati i reoli cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Gan weithio ochr yn ochr â gwaith datblygu polisi Diogelu ac Addysg, bydd y grŵp yn sicrhau eglurder a chydlyniant mewn perthynas â dulliau cyfochrog o ddiogelu ym maes trais a cham-drin. Bydd y grŵp hefyd yn gallu helpu i weithredu gweledigaeth y cwricwlwm ACRh i hybu cydberthnasau iach, yn ogystal â mynd i'r afael â cham-drin rhwng cyfoedion.

Rydym hefyd yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys yr heddlu, i ddatblygu cynllun gweithredu amlasiantaethol ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Bydd y cynllun yn amlinellu'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg. Ein bwriad yw cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyn diwedd tymor yr hydref.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

## P-06-1308 Take immediate action to end sexual harassment in ALL Welsh schools, not just secondary schools, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.11.22

Many thanks for sharing the Welsh Government response with me.

Whilst I do appreciate that further inquiries will give more age-specific data, and that the new RSE curriculum has a huge part to play, I do think that there is still an opportunity to implement some of the commitments from the CYPE Committee report across all educational establishments now. I believe that a reasonable solution would be for each of the commitments in the report to be reviewed and, wherever possible, implemented for primary schools and colleges too (e.g. standardised reporting, teacher training). This is particularly important considering that for years 5 and 6, the RSE curriculum is in a phase with early secondary school - an acknowledgement of this key developmental age.

I will also acknowledge my thanks to the Welsh Government as I have been invited to input to the multi agency action plan.

Many thanks to the Petitions Committee for all your support,
Hanna Andersen

# Eitem 3.1

**P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gill Marshall, ar ôl casglu 4,338 llofnodion ar-lein, a 1,582 ar bapur, sef cyfanswm o 5,920 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae llawer o unedau ffermio dofednod dwys yng Nghymru. Powys yw un o'r mannau â'r nifer fwyaf o'r unedau hynny. Mae 147 o geisiadau unedau dofednod dwys wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Powys. Mae'r unedau hyn yn dod â llawer o broblemau gyda nhw gan gynnwys llygredd afonydd a thir, arogl, amonia, traffig, sŵn a golau bob awr o'r dydd. I lawer o bobl, mae'r arfer o ffermio dofednod dwys yn greulon ac yn ddiangen.
Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Pentref bach arall ym Mhowys yw'r diweddaraf mewn rhestr hir i gael ei fygwth gan adeiladu uned ddofednod ddwys. Ardal wledig yw hon, ac mae trigolion y pentref ac ymwelwyr yn cerdded ar y ffyrdd yn rheolaidd. Mae'r dirwedd yn ysblennydd, nid oes llygredd golau ac mae'r distawrwydd yn fyddarol, sy'n hyfryd. Mae afon Cain yn llifo drwy'r pentref yn agos at y safle ac yn llifo i afon Hafren.
Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu. Felly, mae'r ddeiseb hon yn ceisio cymell y gwleidyddion i ddeddfu; maent wedi addo gwneud hynny ers blynyddoedd; maent yn derbyn bod hwn yn fater difrifol ond nid oes deddfwriaeth o hyd.
Addawyd TAN ynghylch unedau dofednod dwys yn 2019. Mae Lesley Griffiths, y Gweinidog Amaeth, wedi dweud bod yn rhaid gwneud rhywbeth, yn enwedig o ran yr unedau llai. Ond rydym yn dal i aros.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn

- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved, Correspondence – Powys County Council to Committee, 16.11.22**

Dear Sir

**Petition P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved**

Thank you for your correspondence of the 25th October 2022 regarding the above matter.

I do hope that the answers provided below, in blue, meet the committee's concerns:

- how you consider the cumulative impact of Intensive Poultry Units in the planning process

    **Planning applications are determined in line with prevailing legislation, regulations, policy, guidance and other material considerations. On the 12th June 2018, Welsh Government's Chief Planner wrote to all Local Planning Authorities in relation to intensive agricultural development including cumulative impacts:**

    Intensive poultry units: guidance for local planning authorities | GOV.WALES

    **Since its publication, the Authority has followed the advice provided when determining planning applications for intensive livestock units and statutory consultees such as Natural Resources Wales also take cumulative impact into account when responding to being consulted on planning applications.**

- for a response to the concern raised by the petitioner about lack of transparency when all information relating to application are not published; and,

    **The Council's planning portal website is used to publish planning application documents and the consultation responses received from statutory consultees and is therefore considered transparent. Comments published by members of the public are no longer published on the planning portal for resource and data protection reasons, although redacted copies can be provided on request. This approach is similar to that taken by other Authorities across Wales.**

- whether an environmental survey has been undertaken to understand the impacts of the concentration of IPU's in Powys.

    **The Authority has collected data on planning permissions since the adoption of its Local Development Plan (LDP) in April 2018 and this will be used to inform the development of future planning policy as part of the Powys replacement LDP process which commenced in July. Earlier planning permission data is also available and can be retrieved as necessary. However, the Authority has not specifically commissioned or undertaken an environmental survey or research into such impacts. The Authority is aware of some research in relation to phosphates / phosphorous undertaken by the University of Lancaster for the river Wye:** Resilience Phosphorus UK – Re-focusing phosphorus use in the UK food system (lancs.ac.uk)

If I can be of any further assistance, please do let me know.

Yours faithfully

***Cynghorydd Sir James Gibson-Watt***
***Arweinydd Gweithredol, Cyngor Sir Powys***
**County Councillor James Gibson-Watt**
**Executive Leader, Powys County Council**

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay

CRYFACH –tecach– GWYRDDACH | STRONGER –fairer– GREENER

**P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved, Correspondence – Petitioner to Committee, 29.11.22**

Thank you for this information.
Responses embedded in the attached document.
Also:

- What are your thoughts on the attached document? ***It does not answer the questions fully; the PCC use of GDPR to deny the public access to information is at best questionable. Why do other CCs publish information but not Powys? GDPR applies to all.***
- Does it adequately address the issues that you raised? ***I'm afraid not; PCC Planning do not seem to be accountable. They do not enforce planning conditions, they do not share information and they do not fully reply to planning challenges, and when they do respond they are not complete and refer you to their appeals process. The record of appeals is heavily weighted to PCC, not the public. Where is the voice of the public in PCC planning?***
- Do you have further questions in response? ***See below***
- Is there anything additional that you would like the Committee to know at this stage, either in response to this document or as an update to the Committee? ***PCC continue to ignore public responses to planning applications. A recent case had 22 objections, none of which were published and planning was granted. Where is accountability? What is the status of the promised TAN?***

Petitioner comments on the responses provided by Powys County Council

Petitions Committee question: how you consider the cumulative impact of Intensive Poultry Units in the planning process Planning applications are determined in line with prevailing legislation, regulations, policy, guidance and other material considerations.

**Powys response:** Powys County Council Planning applications are determined in line with prevailing legislation, regulations, policy, guidance and other material considerations. On the 12th June 2018, Welsh Government's Chief Planner wrote to all Local Planning Authorities in relation to intensive agricultural development including cumulative impacts: Intensive poultry units: guidance for local planning authorities | GOV.WALES

Since its publication, the Authority has followed the advice provided when determining planning applications for intensive livestock units and statutory consultees such as Natural Resources Wales also take cumulative impact into account when responding to being consulted on planning applications.

**Petitioner response** : Where are the 'material considerations' defined and published. A search on the PCC website does not produce any information.

This response does not provide evidence of how they consider the cumulative impact. What evidence is there available to the public? What form does it take? Evidence of processes followed (not simply the guidance but how they implement), reports/information included in responses by Planning available? IPU applications in Powys can be considered, and have been, through delegated powers which simply state permission granted. The advice referenced applies to units of 40,000 birds and above; not to units below this number. Do PCC have a published process chart for these activities, available to the public and interested parties

**Petitions Committee question**: a response to the concern raised by the petitioner about lack of transparency when all information relating to application are not published

**Powys response:** The Council's planning portal website is used to publish planning application documents and the consultation responses received from statutory consultees and is therefore considered transparent. Comments published by members of the public are no longer published on the planning portal for resource and data protection reasons, although redacted copies can be provided on request. This approach is similar to that taken by other Authorities across Wales.

**Petitioner response**: Considering something transparent does not make it so. The fact that PCC state comments from the public are no long published (a practice not followed by the majority of CCs) means there is a lack of information. Other Welsh CCs state 'We are legally obliged to ensure that all responses to planning applications are made public' How can Powys have different laws? This practice means that representations from expert organisations and the public are not visible. This denies the public their voice. How are redacted copies requested? There is no link or information on the PCC site.

**Petitions Committee question**: · has an environmental survey has been undertaken to understand the impacts of the concentration of IPU's in Powys.

**Powys response:** The Authority has collected data on planning permissions since the adoption of its Local Development Plan (LDP) in April 2018 and this will be used to inform the development of future planning policy as part of the Powys replacement LDP process which commenced in July. Earlier planning permission data is also available and can be retrieved as necessary. However, the Authority has not specifically commissioned or undertaken an environmental survey or research into such impacts. The Authority is aware of some research in relation to phosphates / phosphorous undertaken by the University of Lancaster for the river Wye: Resilience Phosphorus UK – Re-focusing phosphorus use in the UK food system (lancs.ac.uk)

**Petitioner response**: Why have they not undertaken environmental surveys? How do PCC take into account the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 in relation to IPUs? The guidance reference above also states "Intensive agricultural units particularly pig and poultry farms, can affect both sensitive habitats and the local population. This is largely through the release of pollutants, including: ammonia; nutrients from manure, litter and slurry; effluent discharges; dust; odour; and noise. There is the need to exercise particular care when considering developments which would bring livestock units within close proximity to sensitive land uses such as homes, schools, hospitals, office development or sensitive environmental areas. Importantly, while an individual intensive livestock

development may be acceptable, the cumulative impacts resulting from similar developments nearby should also be taken into account. “ The Environment Impact Assessment (Agriculture) (Wales) Regulations 2017 require farmers to produce an Environmental Statement in those cases where certain farming operations on semi-natural areas and/or large scale restructuring projects on rural land holdings are likely to have significant environmental effects. If each IPU has undertaken this assessment then the data is available. Do PCC enforce this requirement to produce EIA?

**P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Marie Curie & MNDA, ar ôl casglu cyfanswm o 2,195 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn marw yng Nghymru wedi colli'r cyfle i gael gofal lliniarol a diwedd oes.

Roedd y cynllun gofal diwedd oes ar gyfer Cymru yn gweithio i drwsio hyn, ond bydd yn dod i ben ym mis Mawrth. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun newydd yn barod i gymryd ei le.

Mae arnom angen brys am linell amser, cyllid a staff i gyflawni cynllun newydd.
Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan heb unrhyw beth i gymryd ei le. Llofnodwch heddiw a helpwch ni i wneud yn siŵr nad yw teuluoedd yng Nghymru yn cael eu gadael mewn twll.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rydym yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu gofal lliniarol a diwedd oes yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, ond mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau ein bod yn gweld gweithredu priodol.

Bydd strwythurau llywodraethiant clinigol y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu had-drefnu'n fuan. Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru gynigion ar gyfer fframwaith clinigol newydd a Gweithrediaeth newydd ar gyfer GIG Cymru; mae'r fframwaith clinigol yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu Rhaglen benodedig ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes a Datganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Y bwriad yw i'r trefniadau hyn gymryd lle y Cynllun Cyflawni Diwedd Oes cyfredol, a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae Rhaglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes i’w chroesawu, ond mae seilwaith heb adnoddau digonol a phersonél cyfyngedig i’r rhaglen, ynghyd â’r pandemig, wedi effeithio ar y gallu gyflwyno’r rhaglen newydd yn ôl amserlen briodol. Gyda diwedd mis Mawrth yn prysur nesáu a heb Raglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes i’w gweld, mae’n edrych fel na fydd gan Gymru gynllun Gofal Lliniarol a Diwedd Oes am y tro cyntaf ers degawd.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1269
Ein cyf/Our ref EM/03812/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref 2022 yn amgáu cwestiynau dilynol gan y deisebwyr at y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â Deiseb P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru.

Rwy'n ymateb isod i'r cwestiynau hyn.

**O gofio'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i flaenoriaethu gofal diwedd oes, hoffem wybod faint o amser sy'n cael ei roi i'r agenda gofal diwedd oes gan bob aelod o staff yn Llywodraeth Cymru.**

Mae'n anodd rhoi canrannau cwbl gywir ar gyfer staff sy'n gweithio ar yr agenda gofal diwedd oes gan fod y tri aelod o staff dan sylw hefyd yn darparu cymorth ar gyfer nifer o gyflyrau iechyd difrifol eraill, ac mae eu hadnoddau'n cael eu defnyddio yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd yr agenda gofal diwedd oes hefyd yn cael cymorth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynghorwyr nyrsio, cynghorwyr gofal sylfaenol, y Prif Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, staff gofal cymdeithasol, staff y gweithlu, ac arweinwyr clinigol eraill, a hynny'n ychwanegol at y tri aelod o staff uchod.

**Hefyd, o ystyried y cynnydd diweddar yn y capasiti gofal diwedd oes yng Nghydweithrediaeth y GIG, a ydym yn debygol o weld cynnydd cyfatebol mewn capasiti yn Llywodraeth Cymru er mwyn cyflymu'r broses o weithredu'r Rhaglen ar gyfer Gofal Diwedd Oes?**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae bwrdd newydd y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes yn gyfrifol am symud y polisi gofal diwedd oes yng Nghymru yn ei flaen, gan gynnwys gweithredu'r datganiad ansawdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Roedd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol, a dyna pam y gwneuthum y penodiadau ychwanegol o fewn Cydweithrediaeth y GIG, fel y cyfeiriwyd atynt yn fy ymateb blaenorol i'r Pwyllgor.

Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio, a reolir gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio, sy'n gyfrifol am yr agenda gofal diwedd oes, ac mae'r ddau bennaeth hyn yn monitro'r adnoddau sydd eu hangen ar draws eu holl feysydd polisi, gan symud adnoddau i feysydd o flaenoriaeth neu i feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol, yn ôl y gofyn.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# Don't let the plan run out for dying people in Wales

Marie Curie & Motor Neurone Disease Association: Briefing for Petitions Committee, November 2022

**RE: Marie Curie Cymru and MNDA have decided to request that the Petitions Committee defer discussion on this petition until later in the term.**

We are grateful to the Petitions Committee for their ongoing support of Marie Curie Cymru and MND Association's petition on End of Life Care. This has opened a direct communication channel with the Minister for Health and Social Services, and positive steps forward have been made since the launch of the petition in March 2022. We also thank the Committee for getting in touch with the Minister to clarify the current arrangements for civil servants working on end of life care.

In light of ongoing developments over the next couple of weeks to establish the End of Life Care National Programme Board, we would like to request that the Petitions Committee defer discussion on this matter until their next Committee session. At this point, we hope that we will have more understanding of what progress has been made and how the third sector is being included in the End of Life Care Programme going forward.

In the meantime, if any additional information would be of value to the Petitions Committee, we would be happy to provide this.

Kind regards,

Marie Curie Cymru
Motor Neurone Disease Association

**P-06-1270 Gwnewch Hydref 21ain yn Ddiwrnod Coffa swyddogol i'r rhai a laddwyd ac a effeithiwyd gan Drychineb Aberfan**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 53 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Am 9.15 am ddydd Gwener, 21 Hydref, 1966, dechreuodd tomen gwastraff glo uwchben pentref glofaol Aberfan lithro i lawr y mynydd, gan ddinistrio bwthyn fferm yn gyntaf a lladd pawb a oedd ynddo. Yna, llithrodd ymhellach tuag at Ysgol Iau Pantglas, lle'r oedd y plant newydd ddychwelyd i'w dosbarthiadau ar ôl canu All Things Bright and Beautiful yn eu gwasanaeth boreol. Claddwyd yr ysgol a thua 20 o dai yn y pentref, gan ladd 144 o bobl, gan gynnwys 116 o blant ysgol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Ar 26 Hydref 1966, penodwyd tribiwnlys i ymchwilio i achosion trychineb Aberfan a'r amgylchiadau cysylltiedig. Cadeirydd y tribiwnlys oedd y bargyfreithiwr a'r Cyfrin Gynghorydd yr Arglwydd Ustus Edmund Davies.

Dyma gasgliadau'r adroddiad:

* Y Bwrdd Glo Cenedlaethol, a'r ffaith nad oedd ganddynt unrhyw fath o bolisi ar gyfer tomenni glo, oedd yn llwyr gyfrifol am y trychineb.

* Anwybyddwyd rhybuddion niferus am gyflwr peryglus y domen.

* Nid oedd y tomenni wedi cael eu harchwilio erioed ac roedd y Bwrdd Glo yn ychwanegu atynt yn barhaus a hynny heb unrhyw fath o drefn na chynllun. Roedd y Bwrdd Glo wedi diystyru'r cyflwr daearegol ansefydlog ac nid oedd wedi gwneud dim yn dilyn llithriadau llai, blaenorol, a dyma oedd y prif ffactorau a gyfrannodd at y trychineb.

Ni ddylid anghofio'r bobl ddiniwed hyn a dylent aros yn ein cof am byth. Dylai'r 21ain o Hydref fod yn Ddiwrnod Coffa cenedlaethol i gofio amdanynt a sicrhau na fyddant byth yn angof.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1270
Ein cyf/Our ref FM -/00598/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
deisebau@senedd.cymru

21 Tachwedd 2022

Jack,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â Deiseb P-06-1270 *Gwnewch Hydref 21 yn Ddiwrnod Coffa Swyddogol i'r rhai a laddwyd ac a effeithiwyd gan Drychineb Aberfan*. Ym mis Mehefin y cyflwynwyd y ddeiseb  ond ar 26 Hydref y daeth i law fy swyddfa. Mae eich llythyr pellach yn gofyn am ddiwrnod coffa cenedlaethol i bawb sydd wedi eu lladd mewn trychinebau glofaol.

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol atoch ar 29 Ebrill, mae'r pŵer i ddynodi dyddiau cenedlaethol yn nwylo Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, bob blwyddyn rydym yn nodi ac yn cofffáu dyddiad trychineb Aberfan a phawb a fu farw ar y diwrnod ofnadwy hwnnw.

Eglurais fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth ariannol i Elusen Goffa Aberfan er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r gerddi coffa ac Elusen Addysg Aberfan ar gyfer prosiectau ysgolion yn Aberfan ac Ynysowen.

Mae gennym hefyd Ardd Goffa a Chofeb Lofaol Genedlaethol Cymru, yn Senghennydd. Mae'r peiriannau ceramig yn yr ardd yn cofnodi pob trychineb genedlaethol a ddigwyddodd ym mhyllau glo Cymru.

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sam Swash, ar ôl casglu 857 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae nifer y bobl sy'n rhentu'n breifat yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn - ar hyn o bryd mae llawer yn cael eu gwahardd rhag cadw anifeiliaid anwes oherwydd cymalau yn eu cytundebau tenantiaeth.
Ni ddylai’r manteision o berchen ar anifeiliaid anwes gael eu cyfyngu i bobl sy’n berchen ar dŷ. Dylai'r rhai sy'n rhentu gael yr un hawl i gadw anifail anwes â pherchnogion tai.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn ôl Dogs Trust, y prif reswm dros roi cŵn mewn canolfannau ailgartrefu yw oherwydd newid mewn amgylchiadau, fel methu byw mewn eiddo rhent gydag anifail anwes. Mae'r cymalau hyn hefyd yn atal nifer fawr o bobl rhag gwirfoddoli i ailgartrefu anifeiliaid anwes; maent yn cael eu gwahardd rhag gwneud hynny i bob pwrpas o ganlyniad i’w statws fel tenant. Mae hyn yn golygu bod anifeiliaid anwes yn dioddef yn ogystal â thenantiaid.
Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gytundeb Tenantiaeth Enghreifftiol newydd a oedd yn gwahardd landlordiaid rhag cyflwyno gwaharddiadau cyffredinol ar anifeiliaid anwes. Caniatâd ar gyfer anifeiliaid anwes yw'r safbwynt arferol erbyn hyn. Yng Nghymru, nid yw hyn wedi’i gynnwys, ac felly mae tenantiaid Cymru yn llai tebygol o allu cadw anifail anwes na thenantiaid eraill yn y DU.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Alyn a Deeside
- Gogledd Cymru

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/02439/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 27 Hydref ynglŷn â Deiseb P-06-1272 – Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru.

Rwy'n nodi eich sylwadau ynghylch y tenantiaid hynny nad oes ganddynt gytundeb tenantiaeth ar hyn o bryd. Os nad oes gan denant gytundeb tenantiaeth ffisegol, ond bod y denantiaeth yn bodloni'r meini prawf i fod yn Denantiaeth Fyrddaliadol Sicr, yna mae ganddo Denantiaeth Fyrddaliadol Sicr, er mai tenantiaeth ymhlyg yw'r denantiaeth hon. O ran anifeiliaid anwes, mae hyn yn golygu na fydd gan y tenantiaid hyn gymal sy'n eu hatal yn benodol rhag cadw anifeiliaid anwes.

O 1 Rhagfyr, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi Contract Meddiannaeth ysgrifenedig i denantiaid presennol. Bydd hyn yn berthnasol ni waeth a oes ganddynt gytundeb tenantiaeth ysgrifenedig ar y pryd neu beidio. Felly byddai angen i landlordiaid geisio cynnwys cymal penodol yn y contract a fyddai'n gwahardd anifeiliaid anwes, a gellid herio'r cymal hwn o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 pe credid bod gwneud hyn yn afresymol.

Rwy'n nodi ymateb eich deisebwr ynghylch y ffaith ei bod yn anodd hyd yn oed cael cyfle i gael eiddo yn y lle cyntaf ar ôl dweud bod ganddo anifail anwes. Mae RSPCA Cymru wedi cynghori, mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y byddai'n fuddiol i ddarpar denantiaid ddarparu geirdaon gan landlordiaid blaenorol i helpu i ddangos na fu unrhyw broblemau gan y gallai hyn helpu i leihau pryderon ynghylch unrhyw risg canfyddedig o ddifrod neu ymddygiad negyddol.

Rwyf wedi darllen ymateb eich deisebwr ynghylch fy awgrym i ganoli canllawiau. Roedd yr awgrym hwn yn benodol mewn ymateb i sylw eich deisebwr ynghylch y ffaith bod tenantiaid yn ei chael yn anodd dod o hyd i wybodaeth sy'n egluro eu hawliau; Felly, dw i'n credu bod ei sylwadau ynghylch fy awgrym y byddem yn gwneud canllawiau'n gliriach wedi cael ei ystyried heb y cyd-destun. Dim ond rhoi sylw i'r pwynt hwnnw yr oeddwn drwy ddarparu ffynhonnell wybodaeth ganolog, gan y dylai helpu tenantiaid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid wy'n gallu cefnogi gwaharddiad cyffredinol ar landlordiaid yn gwrthod derbyn anifeiliaid anwes mewn eiddo rhent preifat. Yn aml nid yw rhai adeiladau yn addas ar gyfer anifeiliaid anwes mawr, fel llety amlfeddiannaeth, llety â chymorth neu lety myfyrwyr wedi'i adeiladu i'r pwrpas. Hyd yn oed pe bai eiddo i'w weld yn addas ar gyfer anifeiliaid anwes, mae'n bosibl bod rheswm da pam na all tenant gadw anifail anwes; er enghraifft, cyfamod cyfyngol, neu les a diogelwch tenantiaid eraill/cymdogion.

Nid yw'n hollol wir bod gan berchnogion cartref ryddid llwyr ynghylch a allant gadw anifail anwes. Mae'n bosibl bod gan lawer o berchnogion cartref sy'n byw mewn eiddo â lesddaliad rwystrau ar gadw anifeiliaid anwes. Yn aml mae gan bobl sy'n byw ar safleoedd cartrefi symudol gymalau yn eu contractau sy'n cyfyngu ar gadw anifeiliaid anwes. Mewn rhai achosion, mae pobl sy'n meddu ar rydd-ddaliad eu cartref hefyd yn cael eu cyfyngu o ran y ffordd maent yn defnyddio eu hadeilad neu eu tir, a gallai hyn eu hatal rhag cadw rhai anifeiliaid anwes.

Byddai'r cyfyngiadau uchod hefyd yn berthnasol i landlordiaid sy'n gosod eiddo yr effeithir arno gan y rheolau hyn. Pe bai gennym waharddiad cyffredinol ar gymalau 'Dim Anifeiliaid Anwes', mae'n bosibl y byddai'r landlord yn torri amodau eu lesddaliad neu gyfamod, gan eu rhoi mewn sefyllfa gyfreithiol ansicr ac, yn arwain at sefyllfa annymunol lle mae'r denantiaeth mewn perygl.

Rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda'r sector i ddylanwadu ar newid ymddygiad ynghylch derbyn anifeiliaid anwes mewn eiddo rhent preifat lle bo hynny yn briodol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

# Eitem 3.5

**P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 3,332 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Fel rhan o'i pholisi treth i gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru am wella'r broses o wahaniaethu rhwng lletyau gwyliau cyfreithlon wedi'u dodrefnu ac ail gartrefi. Mae'r Gorchymyn drafft, er gwaethaf y cyngor i'r gwrthwyneb a gafwyd yn ymgynghoriad y Llywodraeth ei hun, yn codi lefel y ddeiliadaeth sy'n ofynnol ar gyfer ennill statws fel busnes o 70 i 182 diwrnod. Nid yw hyn o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o letyau gwyliau wedi'u dodrefnu, a fydd naill ai'n cau neu'n cael eu hailbennu fel ail gartrefi o ganlyniad i'r newid. Rydym yn cynnig trothwy o 105 diwrnod, sef cynnydd o 50 y cant, yn unol â diffiniadau Cyllid a Thollau EM.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae Cynghrair Twristiaeth Cymru, UK Hospitality Cymru a Chymdeithas Broffesiynol yr Hunan Arlwywyr wedi casglu tystiolaeth gan oddeutu 1,500 o fusnesau bach yng Nghymru i ddangos y canlyniadau anfwriadol niweidiol i fywoliaeth a chymunedau yng Nghymru yn sgil trothwy o 182 diwrnod.
Mae'n nodi na fydd y Llywodraeth yn cyflawni ei bwriad o ran polisi, sef cyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, ond y bydd yn hytrach yn lleihau nifer y busnesau Cymraeg lleol. Mae'r adroddiad a'r dystiolaeth sy'n ategu'r ddeiseb hon i'w gweld yn https://www.pascuk.co.uk/wp-content/uploads/2022/04/UKH.WTA_.PASC-BoE-1500-080422.docx
Y Gorchymyn drafft yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1289
Ein cyf/Our ref: RE-00931-22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach ynghylch deiseb i newid y meini prawf gosod a ddefnyddir i ddosbarthu eiddo hunanddarpar at ddibenion trethi lleol. Rwy'n gwerthfawrogi eich diweddariad ar ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb hon ac rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r cwestiynau penodol a godwyd gennych.

Yn gyntaf, gwnaethoch ofyn pa drefniadau sydd ar waith i gefnogi busnesau hunanddarpar na fyddent, efallai, yn gallu bodloni'r lefel defnydd llety oherwydd diffyg galw, yn enwedig yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Hoffwn ailadrodd mai safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yw na ddylai eiddo sy'n darparu llety hunanddarpar ond yn cael ei gyfrif fel eiddo annomestig os yw'n cael ei osod at ddibenion busnes am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac y dylai eiddo nad yw'n cael ei osod yn aml fod yn agored i dalu'r dreth gyngor. Yn ogystal â sicrhau bod eiddo o'r fath yn gwneud cyfraniad teg i gymunedau ac economïau lleol, bwriad y meini prawf gosod uwch yw helpu i sicrhau bod yr eiddo dan sylw yn cael ei osod yn rheolaidd. Nod hyn yw helpu i roi sylw i effaith y niferoedd mawr o ail gartrefi a llety gwyliau, gan gynnwys effaith eiddo a danddefnyddir, ar argaeledd tai lleol.

Efallai y bydd perchnogion ail gartrefi a llety hunanddarpar yn mabwysiadu nifer o newidiadau ymddygiad posibl wrth ymateb i'r meini prawf uwch. Gall hyn gynnwys perchnogion eiddo yn addasu eu modelau gweithredu i wneud mwy o ddefnydd o'u heiddo i fodloni'r meini prawf uwch. Pan nad yw hyn yn ddymunol neu'n gyraeddadwy, efallai y bydd perchnogion yn dewis addasu eu modelau gweithredu i wneud cyfrif am fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Efallai y bydd rhai perchnogion yn gwerthu eu heiddo, neu'n ei osod fel llety domestig parhaol ar gyfer y gymuned leol. Efallai y bydd eraill yn dewis defnyddio'r eiddo fel eu prif gartref neu'n dewis mabwysiadu opsiwn arall. Mater i berchnogion eiddo unigol fydd ystyried y dull i'w fabwysiadu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai mathau o eiddo hunanddarpar wedi'u cyfyngu gan amodau cynllunio sy'n atal person rhag meddiannu'r eiddo yn barhaol fel ei brif breswylfa. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer eithriad rhag premiwm y dreth gyngor ar gyfer eiddo a gyfyngir gan amod cynllunio sy'n atal person rhag meddiannu'r eiddo am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn. Yn sgil y newidiadau i'r meini prawf gosod, rwyf wedi ymrwymo i archwilio a oes angen diwygiadau pellach i'r Rheoliadau hyn cyn i'r newidiadau ddod i rym yn ymarferol.

O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, rwyf wrthi'n ceisio safbwyntiau drwy ymgynghoriad technegol ar Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2023 drafft. Mae'r Rheoliadau drafft yn estyn yr eithriad presennol rhag premiwm y dreth gyngor a fydd yn gymwys i eiddo ag amod cynllunio sy'n nodi na chaniateir defnyddio eiddo ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr neu sy'n atal person rhag meddiannu'r eiddo yn barhaol fel ei unig neu brif breswylfa. Byddai eiddo o'r fath yn agored i dalu'r dreth gyngor ar y gyfradd safonol os nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer cael ei gyfrif fel eiddo annomestig ond ni ellid codi premiwm arno. Mae hyn yn gyson â'n safbwynt polisi y dylai perchnogion eiddo wneud cyfraniad teg i gymunedau lleol naill ai drwy dalu trethi lleol neu drwy'r budd economaidd y maent yn ei roi i'r ardal.

Bwriedir mai 1 Ebrill 2023 fydd y dyddiad cymhwyso ar gyfer cyflwyno'r eithriadau estynedig, ar y cyd â'r newidiadau i'r meini prawf gosod a'r cynnydd i'r lefel uchaf y caiff awdurdodau lleol godi premiwm y dreth gyngor arni. Bydd yr eithriadau newydd felly, yn cymhwyso i eiddo sy'n dod yn agored i dalu'r dreth gyngor ar ôl 1 Ebrill 2023.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad sy'n ceisio safbwyntiau ar y canllawiau diwygiedig ar bremiymau'r dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae hyn yn cynnwys opsiynau ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau lleol os na fydd eiddo hunanddarpar a gyfyngir gan amodau cynllunio yn bodloni'r meini prawf gosod. Mae'r canllawiau yn cynnwys cyfeiriad at bwerau disgresiwn awdurdodau lleol i leihau biliau'r dreth gyngor ar gyfer anheddau neu ddosbarthau o anheddau yn eu hardaloedd. Mae'r pwerau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i leihau bil y dreth gyngor o unrhyw faint, fel y gwêl yn addas.


Yn ail, gwnaethoch ofyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar y cyfraddau defnydd llety ac yn ystyried eu hadolygu os yw'r ystadegau yn dangos gostyngiad sydyn mewn eiddo hunanddarpar.

Pan gyhoeddais fod y ddeddfwriaeth dan sylw wedi'i gwneud, eglurais hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'n gyson yr ystod o ysgogiadau sydd ar gael i'w defnyddio wrth inni barhau i ddatblygu ein dull amlweddog ac integredig i roi sylw i'r effaith y gall niferoedd mawr o ail gartrefi a llety gwyliau ei chael ar gymunedau ledled Cymru. Rydym yn paratoi i fonitro effaith y newidiadau i drethi lleol ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2023.

Mae ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cynnwys gofyniad i fonitro ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar symudiadau rhwng cyfraddau annomestig a rhestrau’r dreth gyngor.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon o gymorth i’r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

# Eitem 3.6

**P-06-1292 Gwneud i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau cwmpas 3 a'u cynnwys mewn targedau sero net**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dylan Clarke, ar ôl casglu cyfanswm o 339 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Cynnwys yr holl allyriadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau sector cyhoeddus yn nhargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a'i gwneud yn orfodol i holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau buddsoddiadau (cwmpas 3).
Nod awdurdodau lleol yw sero net erbyn 2030, ond maent yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n bwriadu echdynnu tanwyddau ffosil am ddegawdau.
Nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau! Mae'n rhaid cael gwared ar y ddihangfa hon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Esboniad cryno o allyriadau cwmpas 3.
Cwmpas 1 – allyriadau uniongyrchol o ffynonellau y mae sefydliad sector cyhoeddus yn berchen arnynt neu'n eu rheoli.
Cwmpas 2 – allyriadau anuniongyrchol o drydan, ager, gwres ac awyru a brynir.
Cwmpas 3 – yr holl allyriadau eraill sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sefydliad, gan gynnwys buddsoddiadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil.
Mae cynnwys rhai allyriadau cwmpas 3 o fen y ffin weithredol ond eithrio allyriadau yn anghyson â chyflawni sero net gwirioneddol erbyn 2030 ac yn tanseilio ymdrechion datgarboneiddio'r Llywodraeth. Gweler tudalen 14, tabl 3 yma.
[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-05/canllaw-sector-cyhoeddus-cymru-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-05/canllaw-sector-cyhoeddus-cymru-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net_0.pdf)
Drwy gynnwys pensiynau a buddsoddiadau yn nhargedau'r Llywodraeth, bydd gan y sector cyhoeddus yr hyblygrwydd i benderfynu eu hunain beth

i’w wneud am yr allyriadau cwmpas 3 anuniongyrchol hyn heb eu hanwybyddu.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/02438/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@gov.wales

18 Tachwedd 2022

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref 2022, mewn ymateb i'm gohebiaeth ar 18 Awst 2022.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflwyno data allyriadau ar gyfer pob agwedd ar weithrediadau gan gynnwys adeiladau, symudedd a thrafnidiaeth, defnydd tir a'r gadwyn gyflenwi drwy'r broses Cofnodi Allyriadau Sero Net blynyddol. Mae hyn yn creu adroddiad cynhwysfawr o allyriadau gweithredol ar gyfer pob sefydliad ac ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ar y cyd. Mae'r data gan gyrff y sector cyhoeddus yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru trwy ddull Cymru gyfan sy'n dangos cynnydd tuag at uchelgais cyfunol Cymru Sero Cymru 2030.

Mae Canllaw Adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru yn darparu templed cyffredin a chyson i bob corff y sector cyhoeddus i gofnodi allyriadau i Lywodraeth Cymru. Yn y flwyddyn gyntaf roedd hon yn broses newydd ac yn ymarfer dysgu ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus. Mae'r ail flwyddyn o adrodd wedi dangos mwy o ddealltwriaeth o'r broses gyda 97% o sefydliadau yn adrodd ar amser a gyda mwy o gywirdeb a chysondeb. Bydd y dadansoddiad o'r data eleni yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn newydd. Mae adroddiad y llynedd i'w weld yn Data ac argymhellion Sero Net y Sector Cyhoeddus | LLYW.CYMRU.

Mae'r broses yn gweithio'n dda ond bydd yn datblygu wrth i'n gwybodaeth wella. Mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i gynnal y canllaw fel fformat cyfredol, cyson a derbyniol ar gyfer adrodd allyriadau yn wirfoddol gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## P-06-1292 Make Welsh public sector organisations report scope 3 emissions and include them in net zero targets, Correspondence – Petitioner to Committee, 03.04.22

There are just a couple of other questions I have and a couple of comments...

Thank you for taking the time to reply.
It is encouraging to see more reporting of scope 3 emissions from local authorities. I look forward to reading the analyses in the new year.
However it still appears inconsistent to encourage reporting of some scope 3 emissions but not others.
Given the increasing trend of better data due to the Task Force on Climate Related Financial Disclosure would it not now make sense as the process evolves to include investment emissions within the Net Zero Reporting Guide?
What were the reasons for not including it originally, and do those reasons still apply now?

Over the years the journey towards net zero has been full of omissions. Ignoring the emissions we have offshored by buying goods from abroad, international shipping, aviation etc.
How can the Welsh Government claim an All Wales approach to net zero while allowing local authorities to omit a whole type of emissions?
Please do reconsider where those operational boundaries should be.

Regards Dylan Clarke

**P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Delyth Evans MBE, ar ôl casglu 401 lofnodion ar-lein ac 30 lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 431 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn cant y cant ledled y wlad, gyda sicrwydd ansawdd. Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn yw'r safon fyd-eang ar gyfer trin osteoporosis ac atal toriadau esgyrn, ond mae mynediad at y gwasanaethau yn loteri cod post. Goblygiadau hyn yw y bydd miloedd o bobl sy'n byw ar ochr anghywir llinell ddalgylch yn dioddef toriadau asgwrn cefn a chlun sy'n newid eu bywydau. Gall Llywodraeth Cymru drawsnewid y sefyllfa drwy osod cyfeiriad strategol clir o’r brig, gyda chymorth cyllid cymedrol ar gyfer Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn a chymhellion synhwyrol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae toresgyrn (esgyrn wedi torri) a achosir gan osteoporosis yn un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i fyw'n dda yn ddiweddarach mewn bywyd. O'i adael heb ei drin, mae osteoporosis yn bygwth ein rhyddid, ein hurddas, ein hansawdd bywyd a'n hannibyniaeth. Gyda diagnosis cynnar a’r driniaeth gywir, gall pobl sydd ag osteoporosis fyw’n dda, o gael meddyginiaethau diogel ac effeithiol sy’n hynod fforddiadwy i’r GIG. Ond o ganlyniad i golli cyfleoedd o ran diagnosis ac ymyrraeth gynnar mae miloedd o bobl ledled Cymru yn colli’r cyfle i gael y feddyginiaeth cryfhau esgyrn sydd ei hangen arnynt. Mewn cais Rhyddid Gwybodaeth diweddar, canfu’r Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol (ROS) mai dim ond pedwar allan o saith Bwrdd Iechyd a allai gadarnhau bod ganddynt Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn (ac nid yw pob un o’r rhain yn cwmpasu’r boblogaeth gyfan). Mae'r Gymdeithas Osteoporosis yn amcangyfrif y byddai cynyddu'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn ar gyfer Cymru gyfan yn costio tua £2 filiwn y flwyddyn. Dros y pum mlynedd nesaf, byddai hyn yn arbed tua £25 miliwn i’r GIG a’r

gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn atal dros 1,200 o achosion o dorri clun, ac yn rhyddhau dros 34,000 o ddyddiau o ran gwelyau mewn ysbytai acíwt.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1293
Ein cyf/Our ref EM/03792/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 25 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i wasanaethau cyswllt torri esgyrn (FLS).

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r rhaglen archwiliadau clinigol cenedlaethol sy'n cynnwys y gronfa ddata ar gyfer gwasanaethau cyswllt torri esgyrn. Mae'r gronfa ddata'n darparu amrywiaeth o ystadegau a naratif sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hyn, ac mae'n rhoi cymorth hanfodol wrth inni benderfynu ar ein dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael eu datblygu ar draws Cymru.

Ar ddechrau 2022, gofynnodd swyddogion i'r byrddau iechyd roi trosolwg o'r gwasanaethau cyswllt torri esgyrn y maent yn eu darparu yn eu hardaloedd. Roedd y data hyn yn dangos bod y ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol, gan amlygu'r angen i ddatblygu gwasanaethau mewn nifer o ardaloedd. Fe arweiniodd y data hyn, a hefyd yr ymgyrchu cryf gan y trydydd sector a chleifion, at gynnal y Gynhadledd gyntaf ar Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn ar 20 Hydref 2022. Yn y gynhadledd honno, daeth dros 150 o glinigwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt ynghyd i hyrwyddo iechyd esgyrn ac i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheolaeth eilaidd ar gyfer toriadau esgyrn brau. Hefyd lansiodd y gynhadledd Grŵp Sicrwydd a Datblygu FLS Cymru Gyfan.

Cafodd y grŵp hwn ei greu i roi cyngor a chymorth i fyrddau iechyd o ran sut y gallant ddatblygu gwasanaethau sy'n sicrhau'r budd gorau o safbwynt ariannol ac o safbwynt darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Bydd y grŵp, o dan gadeiryddiaeth Dr Inder Singh, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cwympiadau ac Eiddilwch, yn cydweithio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyda chlinigwyr i lunio achosion busnes i’w cyflwyno i’r byrddau iechyd, gan helpu i fodelu costau yn ôl yr angen.

Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf ddiwedd mis Hydref, ac ar y dechrau bydd yn canolbwyntio ar annog y byrddau iechyd i gymryd rhan yn archwiliadau’r gronfa ddata ar gyfer gwasanaethau cyswllt torri esgyrn er mwyn darparu llinell sylfaen gywir i’r grŵp sicrwydd a’r darparwyr archwiliadau ei defnyddio.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi cyllid ychwanegol gan ein bod yn disgwyl i’r byrddau iechyd berchen ar eu gwasanaethau gan ddefnyddio’r cyllid sydd ar gael iddynt eisoes. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau’n gynaliadwy, ac mae rhagolygon gan y Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol yn dangos y byddent yn arbed arian drwy wneud hynny.

Yn olaf, rwy’n parhau’n ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cyswllt torri esgyrn i Gymru gyfan, a byddaf wrth gwrs yn herio’r byrddau iechyd i ystyried eu gwasanaethau gofal ataliol eilaidd o fewn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon